

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Prys Jones

Agenda ar gyfer cyfarfod 7fed o Ebrill 2020 a gynhelir trwy gyfrwng e-bost oherwydd cyfyngiadau o ganlyniad i argyfwng Covid-19

Cyhoedd: Mae croeso i'r cyhoedd wneud sylwadau ar fater ar yr Agenda – cysyllter gyda'r Clerc

Agenda:

2113 Buddiant: Derbyn datganiadau buddiant

2114 Cofnodion: Cadarnhau cywirdeb Cofnodion cyfarfod 3/3/2020 (e-bostiwyd)

2115 Materion y Clerc:

2102ii Casglu sbwriel a chlirio'r fynwent: Gohiriwyd oherwydd cyfyngiadau Covid 19

2105 Grant i uwchraddio'r toiledau: Derbyniwyd llythyron o gefnogaeth oddi wrth Yr Eagles a chwmni Lloyds Coaches; derbyniwyd addewidion o gefnogaeth gan Sefydliad y Merched, Merched y Wawr a Ras yr Aran.

2110 Cais i Liz Saville Roberts am gynnwys y Gymraeg fel iaith hanfodol i fewnfudwyr o Batagonia: mae staff swyddfa Llundain yn delio efo'r mater hwn.

Ymgynghoriad e-bost ar gais cynllunio i godi eisteddle ar y cae pêl droed: derbyniwyd datganiad buddiant oddi wrth Dewi Jones ac Alwyn E Jones. Anfonwyd at Barc Cenedlaethol Eryri i fynegi cymeradwyaeth y Cyngor.

2116 Cyngor Gwynedd: Derbyn Adroddiad y Cyngorydd Alan Jones Evans

Cais Alan Jones Evans am dai gwyliau sy'n llawn: rhannwyd

2117 Y Fynwent: Maes parcio – gosodwyd dan glo i osgoi trafferthion gydag ymwelwyr i'r ardal.

Maes parcio: Diolch i Alwyn E Jones am lenwi'r tyllau yn y maes parcio ac am sicrhau fod y bin yn ddiogel.

2118 Materion ariannol: Derbyn gwybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf

Derbyn gwybodaeth am grant Llwybr y Cei

Derbyn gwybodaeth am drefniadau Awdit 2019-20 (e-bost)

2119 Adroddiadau: Bydd aelodau yn rhannu unrhyw adroddiadau trwy e-bost

2120 Materion lleol: Ystyried materion a godir trwy e-bostio cyd-aelodau.

2121 Gohebiaeth:

Ymatebion i lythyr oddi wrth Gyngor Cymuned Llanuwchllyn, Cyngor Tref Y Bala, a Chyngor Cymuned Llangywer yn gofyn am fesurau i atal twristiaid a anfonwyd at

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Prys Jones

Dafydd Elis Thomas AS – cydnabyddiaeth o dderbyn y llythyr yn unig
Parc Cenedlaethol Eryri - cydnabyddiaeth o dderbyn y llythyr; negeseuon gan
Warden Llyn Tegid o'r hyn y mae wedi ei gyflawni yn lleol.
Cyngor Gwynedd – ymateb unionsyth yn mynegi rhwystrau diffyg staff, diffyg cyllid a
diffyg pwerau i weithredu.

Anfonwyd copi er gwybodaeth at Liz Saville Roberts a chafwyd ymateb manwl o'r
camau gweithredu y mae wedi eu cymryd (E-bostiwyd)

Cyfoeth Naturiol Cymru – bwletin (e-bostiwyd)

Llythyron yn diolch am gyfraniad:

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych

Clwb Ffermwyr Ieucan Glannau Tegid

Cwmni Theatr Bara Caws

Eisteddfod talaith a Chadair Powys Apêl 2021

Derbyniwyd hefyd lythyr a ymdrechodd Yr Athro Zaheer Yousef, Cadeirydd Cronfa
Ymchwil y Galon i'w ysgrifennu yn Gymraeg yn diolch am y cyfraniad a wnaethpwyd
(elw'r Noson Goffi) ac yn croesawu awgrymiadau am brosiectau a fyddai'n codi arian
at yr elusen.

Diolch am gyfraniad i'r Clwb Pêl Droed:

Ni a lanwyd o'ch haelioni – Diolch
Yw y dasg roed imi
Gynghorwyr selog am gefnogi
A rhoi nawdd i'n coffrau ni.

Cyfarfod nesaf: 5/5/20 (amser a lleoliad yn dibynnu ar amgylchiadau oherwydd Covid 19)